

Esgobaeth Llandaf + Deoniaeth Caerdydd

EGLWYS DEWI SANT

www.eglwysdewisant.org.uk

CROESO i Eglwys Dewi Sant ar yr Aelwyd

5 Mehefin 2022

Y Sulgwyn

CYMORTH CRISTNOGOL

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu i gasgliad Cymorth Cristnogol eleni. Yr ydym yn cau y casgliad heddiw.

Y SUL NESAF

Cynhelir gwasanaeth Aml-oed gyda Chymun Bendigaid y Sul nesaf am 10.30am. Croeso cynnes i bawb.

CYNGOR PLWYFOL EGLWYSIG

Cynhelir Cyfarfod o'r Cyngor Plwyfol Eglwysig **nos Lun 13 Mehefin am 7.30pm yn yr eglwys**. Yn y cyfarfod hwn byddwn yn ystyried a yw'r amser wedi dod i ni ailgyflwyno'r cwpan Cymun i'r rhai sy'n dymuno hynny.

COFFI A CHLONC

Cynhelir ein bore Coffi a Chlonc yn neuadd yr Eglwys am y tro cyntaf am ers dros ddwy flynedd rhwng 10.30am a 12.00pm dydd Sadwrn 19 Mehefin. Diben y boreau hyn yw rhoi cyfle i ddysgwyr ddefnyddio eu Cymraeg mewn awyrgylch anffurfiol a hamddenol. Croeso i ddysgwyr a siaradwyr rhugl.

HWYROL WEDDI YN EGLWYS LLANMIHANGEL

Yn ystod yr wythnos yn dechrau 19 Mehefin bydd yr Esgobaeth yn cynnal Gŵyl Eglwys Agored sy'n canolbwyntio ar ddeg o eglwys nodweddiadol yn yr Esgobaeth. Prynhawn Sul 19 Mehefin am 3.00pm cynhelir gwasanaeth o'r Hwyrrol Weddi gyda Salmau Cân yn Gymraeg yn Eglwys Llanmihangel, CF71 7LQ. Oherwydd maint yr Eglwys, lle i 40 yn unig sydd yno. Os hoffech ddod i'r gwasanaeth hwn mae'n rhaid archebu lle, sy'n rhad ac am ddim, trwy ddilyn y ddolen isod:

<https://www.eventbrite.co.uk/e/ail-greu-gwasanaeth-or-hwyrrol-weddi-or-17eg-ganrif-tickets-342818367967>

NOSON YN EGLWYS Y SANTES FAIR, TREBIWT

Fel rhan o'r Wyl Eglwys Agored, cynhelir noson ddwyieithog yn Eglwys y Santes Fair, Trebiwt nos Fercher 22 Mehefin am 7.00pm. Byddwn yn edrych ar fywyd a chyfraniad un o'i chyn-ficeriaid, sef y Parchedig Griffith Arthur Jones, a oedd yn uchel-eglwsr o fri ac yn frwd iawn dros y gwaith o sefydlu Eglwys Dewi Sant yn Howard Gardens ar ddiwedd y

G19^{eg}. Mae croeso cynnes i bawb a does dim angen archebu lle.

Os hoffech fanylion pellach am yr ŵyl ewch i:

<https://llandaff.churchinwales.org.uk/en/ministry-area-support/church-buildings/churches-unlocked-festival/festival-events/>

AGOR Y LLYFR – CYNGOR EGLWYSI CYMRAEG CAERDYDD

Mae gofyn cynyddol gan Ysgolion Cymraeg lleol am gyflwyniadau Beiblaidd Agor y Llyfr Cyngor Eglwys Cymraeg Caerdydd ac mae angen rhagor o bobl i gynorthwyo ac i greu ail dîm o wirfoddolwyr. Tybed a fydddech chi yn ystyried bod yn rhan o'r criw sy'n darparu cyflwyniadau syml i'r ysgolion cynradd? Y mae'r rhan fwyaf o'r criw presennol wedi ymdeol ond mae croeso i bobl o bob oed ymuno â ni. Nid oes rhaid cael unrhyw brofiad o actio, llefaru, cystadlu mewn eisteddfod, na pherfformio mewn sioeau cerdd. Mae'n llawer symlach na hynny. Am ragor o fanylion cysylltwch â Catrin Roberts ar 07776 340106 neu Alun Tudur 07814 536208

GLANHAU Y NEUADD

Diolch i bawb a ddaeth ynghyd i lanhau y neuadd. Mae prosiect adnewyddu'r toiledau bellach wedi'i gwblhau. Diolch hefyd i bawb a gyfrannodd yn ariannol i'r prosiect. Byddai cychwyn ar y prosiect a'i gwblhau wedi bod yn amhosibl heb eich haelioni chi.

AGOR YR EGLWYS

Ar ddyletswydd **dydd Mercher 8 Mehefin 2022**: Delyth Davies a Susan Thomas

GWASANAETHAU HEDDIW: Y Sulgwyn

Bydd linc i bodlediad y gwasanaeth boreol yn ymddangos gyda'r e-bost sy'n cynnwys y daflen hon. Nid oes podlediad heno.

YN EIN GWEDDIAU

Cofiw'n yn ein gweddïau y cleifion: Cathrin Brynach, John Hicks, Ann Wyn Jones, Nia Roberts, Val Peel, Gwen Thomas, ac am bawb sy'n gofalu amdanynt.

Gweddïwn hefyd dros bawb a fu farw yn nhangnefedd Crist, a thros bawb y cofiw'n am eu marwolaeth yr adeg hon o'r flwyddyn. Dyro iddynt, O Arglwydd, orffwys tragwyddol a llewyrched goleuni gwastadol arnynt.

ADDOLI AR YR AELWYD

Os oes gennych gopi o lyfr Gweddi yr Eglwys yng Nghymru ar gyfer y Foreol a'r Hwyrrol Weddi (glas tywyll 1984), mae croeso i chi ddilyn trefn y gwasanaethau ynddo a'i ddarllen i chi eich hun yn dawel neu ar lafar, neu ym mha bynnag fodd sy'n gyffyrddus i chi.

Mae'r Salm a'r darlleniadau ar gyfer y Sul fel y canlyn:

Y Foreol Weddi:

Salm 104:24-36
Actau 2:1-14
Ioan 14:8-17

Yr Hwyl Weddi:

Salm 150
Ecsodus 33:7-20
II Corinthiaid 3:4-18

Mae croeso i chi ddilyn trefn y gwasanaeth ar y daflen hon hefyd.

Trefn gwasanaeth syml ar gyfer y gwasanaeth boreol
Thema: "Yr Ysbryd Glân sydd byth a byth yn aros yn ei unfan".

Tyrd, Ysbryd cariad mawr,
Ymwêl a llwch y llawr,
A gyr dy nerth yn dân i'm hysbryd egwan;
Ddiddanydd, agosâ,
Fy nghalon i cryfha,
A chynnau'r fflam yn hon, dy newydd drigfan.

Dy gwmi, sanctaidd Un,
Dry nwydau meidrol ddyn
Yn llwch a lludw yn ei danllyd fflamau;
A'th olau nerthol di
Fyddo f'arweinydd i,
Ac ar fy ffordd yn llewyrch mwy i'm llwybrau.

Tywynned haul dy ras
O wyneb-pryd dy was,
A'i darddiad fyddo'r galon iselfrydig,
Yr hon a wyla'n lli
Dros ei diffygion hi,
Gan ddwyn ei chroes ar ysgwydd ostyngedig.

Uwch deall dynol-ryw
Fo'r hiraeth dwfn am Dduw
A phresenoldeb Ysbryd Crist byth bythoedd:
Ei ras ni wŷyr un dyn,
Nes dod yn deml ei hun
Lle trig yr Ysbryd sanctaidd yn oes oesoedd.
*Bianco da Siena Cyf. Hywel Griffiths
Emynau'r Llan 124*

Yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân. Amen.

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi
A'th gadw du yng nghariad Crist.

**Dad nefol, y mae pob calon yn agored i ti.
Ni allwn guddio un dim oddi wrthyt.
Glanha ni â fflam dy Ysbryd Glân
er mwyn inni dy garu a'th addoli'n ffyddlon,
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.**

Arglwydd, trugarha.
Crist, trugarha.
Arglwydd, trugarha

Cyffeswn yn ostyngedig ein pechodau gerbron yr
Hollalluog Dduw.

**Dad nefol,
yr ydym wedi pechu ar feddwl, gair a gweithred,
a heb wneud yr hyn a ddylem.
Mae'n wir ddrwg gennym,
ac yr ydym o ddifrif yn edifarhau.
Er mwyn dy Fab Iesu Grist a fu farw drosom,
Maddeua inni'r cwbl a aeth heibio
ac arwain ni yn ei ffordd ef
i gerdded fel plant y goleuni. Amen.**

Yr Hollalluog Dduw,
sy'n maddau i bawb sy'n wir edifeiriol,
a drugarhao wrthym, a'm rhyddhau o bechod,
ein cadarnhau mewn daioni
a'n cadw yn y bywyd tragwyddol;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

**Gogoniant yn y goruchaf i Dduw,
ac ar y ddaear tangnefedd i'r rhai sydd wrth ei fodd.
Moliannwn di, bendithiwn di,
addolwn di, gogoneddwn di,
diolchwn i ti am dy fawr ogoniant.
Arglwydd Dduw, Frenin nefol,
Dduw Dad Hollalluog.**

**O Arglwydd, yr Unig Fab, Iesu Grist;
O Arglwydd Dduw, Oen Duw, Fab y Tad,
sy'n dwyn ymaith bechod y byd,
trugarha wrthym;
tydi sy'n eistedd ar ddeheulaw Duw Dad,
derbyn ein gweddi.**

**Oherwydd ti yn unig sy'n Sanctaidd;
ti yn unig yw'r Arglwydd;
ti yn unig, O Grist, gyda'r Ysbryd Glân,
sydd Oruchaf yng ngogoniant Duw Dad. Amen.**

Y Colect: Y Sulgwyn

O Dduw, a ddysgaist ar gyfenw i'r amser yma
galonnau dy ffyddloniaid trwy anfon iddynt oleuni dy
Ysbryd Glân: dyro i ni trwy'r un Ysbryd feddu barn
gywir ym mhob peth, a llawenyachu byth yn ei

ddiddanwch gwynfydedig: trwy haeddiannau Iesu Crist ein Hiachawdwr, sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi, yn undod yr un Ysbryd, yn un Duw, yn oes oesoedd. **Amen.**

Darlleniad: Actau 2:1-11

Ar ddydd cyflawni cyfnod y Pentecost yr oeddent oll ynghyd yn yr un lle, ac yn sydyn fe ddaeth o'r nef sŵn fel gwynt grymus yn rhuthro, ac fe lanwodd yr holl dŷ lle'r oeddent yn eistedd. Ymddangosodd iddynt dafodau fel o dân yn ymrannu ac yn eistedd un ar bob un ohonynt; a llanwyd hwy oll â'r Ysbryd Glân, a dechreusant lefaru â thafodau dieithr, fel yr oedd yr Ysbryd yn rhoi lleferydd iddynt. Yr oedd yn preswyllo yn Jerwsalem Iddewon, pobl dduwiol o bob cenedl dan y nef; ac wrth glywed y sŵn hwn fe ymgasglodd tyrfa ohonynt, ac yr oeddent wedi drysu'n lân am fod pob un ohonynt yn eu clywed hwy yn siarad yn ei iaith ei hun. Yr oeddent yn synnu a rhyfeddu, ac meddent, "Onid Galileaid yw'r rhain oll sy'n llefaru? A sut yr ydym ni yn eu clywed bob un ohonom yn ei iaith ei hun, iaith ei fam? Parthiaid a Mediaid ac Elamitiaid, a thrigolion Mesopotamia, Jwdea a Capadocia, Pontus ac Asia, Phrygia a Pamffylia, yr Aiffet a pharthau Libya tua Cyrene, a'r ymwelwyr o Rufain, yn Iddewon a phroselytiaid, Cretiaid ac Arabiaid, yr ydym yn eu clywed hwy yn llefaru yn ein hieithoedd ni am fawrion weithredoedd Duw."

**Tyrd, Ysbryd Glân, i'n clonau ni
A dod d'oleuni nefol;
Tydi wyt Ysbryd Crist, dy ddawn
Sydd fawr iawn a rhagorol.**

**Llawenydd, bywyd, cariad pur,
Ydynt dy eglur ddoniau;
Dod eli i'n llygaid, fel i'th saint,
Ac ennaint i'n hwynebau.**

**Gwasgara di'n gelynyon trwch,
A heddwch dyro inni;
Os twysog inni fydd Duw nêr,
Pob peth fydd er daioni.**

Darlleniad: Ioan 14:8-17

Meddai Philip wrtho, "Arglwydd, dangos i ni y Tad, a bydd hynny'n ddigon inni." Atebodd Iesu ef, "A wyf wedi bod gyda chwi cyhyd heb i ti fy adnabod, Philip? Y mae'r sawl sydd wedi fy ngweld i wedi gweld y Tad. Sut y medri di ddweud, 'Dangos i ni y Tad'? Onid wyt yn credu fy mod i yn y Tad, a'r Tad ynof fi? Y geiriau yr wyf fi'n eu dweud wrthyhch, nid ohonof fy hun yr wyf yn eu llefaru; y Tad sy'n aros ynof fi sydd yn gwneud ei weithredoedd ei hun. Credwch fi pan ddywedaf fy

mod i yn y Tad, a'r Tad ynof fi; neu ynteu credwch ar sail y gweithredoedd eu hunain. Yn wir, yn wir, rwy'n dweud wrthyhch, bydd pwy bynnag sy'n credu ynof fi hefyd yn gwneud y gweithredoedd yr wyf fi'n eu gwneud; yn wir, bydd yn gwneud rhai mwy na'r rheini, oherwydd fy mod i'n mynd at y Tad. Beth bynnag a ofynnwch yn fy enw i, fe'i gwnaf, er mwyn i'r Tad gael ei ogoneddu yn y Mab. Os gofynnwch unrhyw beth i mi yn fy enw i, fe'i gwnaf.

"Os ydych yn fy ngharu i, fe gadwch fy ngorchmynion i. Ac fe ofynnaf finnau i'm Tad, ac fe rydd ef i chwi Eiriolwr arall i fod gyda chwi am byth, Ysbryd y Gwirionedd. Ni all y byd ei dderbyn ef, am nad yw'r byd yn ei weld nac yn ei adnabod ef; yr ydych chi yn ei adnabod, oherwydd gyda chwi y mae'n aros ac yn och chi y bydd.

**Tyrd, Ysbryd Glân, i'n clonau ni
A dod d'oleuni nefol;
Tydi wyt Ysbryd Crist, dy ddawn
Sydd fawr iawn a rhagorol.**

**Dysg in adnabod y Duw Dad,
Y gwir Fab rhad, a thithau,
Yn un tragwyddol Dduw i fod,
Yn hynod Dri Phersonau:**

**Fel y molianner ym mhob oes
Y Duw a roes drugaredd,
Y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân:
Da datgan ei anrhydedd.
*Cyf. Rowland Fychan.***

Y Bregeth

Yn sydyn fe ddaeth o'r nef sŵn fel gwynt grymus yn rhuthro, ac fe lanwodd yr holl dŷ lle oeddent yn eistedd. Actau 2:2

Ar y Sulgwyn fe ganolbwyntiwn ar yr Ysbryd Glân: y grym dwyfol, dynamig, creadigol, bywiocaol sydd byth yn segur a byth yn aros yn ei unfan. Mae'r Ysbryd Glân yn agosach atom na'n hanadl ein hunain. Mae'r Ysbryd Glân yn rhan mor annatod ohonom â'n dwylo a'n traed. Yr Ysbryd Glân sydd yn llenwi ein bywydau a bywyd yr Eglwys â phresenoldeb y dwyfol a'r sanctaidd Un. Eto, nid hawdd yw bwrw ati a cheisio esbonio na chwaith ddiffinio'r Ysbryd Glân. Nid yw ein holl ddychymyg deallusol na'n geirfa yn ddigonol i ddechrau dirnad na rhoi esboniad llawn o'r Ysbryd Glân sydd ar waith ynom. Mae'r cliw yn y gair, Ysbryd, y presenoldeb goruwchnaturiol, dwyfol na all ein holl eiriau meidrol ei gyfleu yn ei lawnder. Cip olwg fan

hyn, cip olwg fan 'co, rhyw ymdeimlad, rhyw brofiad, rhyw ysgogiad annisgwyl, rhyw bigiad i'r cydwybod neu nerth a ddaeth o rywle i wynebu rhyw awr, yw'r agosaf y gallwn ni ddod pan 'dyn ni'n sôn am yr Ysbryd Glân. Fel pob peth ysbrydol arall, gweld mewn drych sy'n aneglur yr ydym. Rhan o'r gwirionedd yn unig sydd yn eiddo i ni, oherwydd y mae Duw a'i ffordd o weithredu yn aros y tu hwnt i'n deall ni.

Pan edrychwn ni ar y greadigaeth o'n hamgylch, fe allwn ni ddweud ein bod yn gweld ôl law y Creawdwr, y Tad, ffynhonnell ein byw a'n bod. Fe allwn ni feddwl am Dduw yn ei nefoedd, efallai. Pan edrychwn ni ar Iesu fel y darllenwn ni amdano yn yr Efengylau, fe allwn ni weld y dyn hanesyddol o gig a gwaed a fu'n troedio'r ddaear hon, a gafodd ei groeshoelio a'i atgyfodi ac a esgynnodd i'r nefoedd. Yn y dyn Iesu hwn, fe allwn ni weld Mab Duw a Gwardwr y ddynoliaeth. Ond, pan mae'n dod at yr Ysbryd Glân, ym mha le 'dyn ni'n dechrau chwilio amdano? Ym mha le 'dyn ni'n dod o hyd iddo? Y gwir yw, os chwiliwn ni am yr Ysbryd Glân, ofer fydd ein ceisio, yr unig beth y gallwn ni ei wneud yw edrych am ei ddylanwad a'i waith ym mywyd yr Eglwys ac yn ein bywydau unigol.

Hyn sydd yn ddiddorol pan awn ni i edrych yn y Beibl - nid yw'r Beibl ei hun yn ceisio diffinio'r Ysbryd Glân, a dweud wrthym beth ydyw. Yn yr efengyl heddiw, wrth i'r Iesu baratoi ei ddisgyblion am ei ymadawiad â hwy, fe addawodd iddynt y byddai'n anfon un arall. "Ac fe ofynnaf finnau i'm Tad," meddai Iesu, "ac fe rydd ef i chwi Eiriolwr arall i fod gyda chwi am byth. Ysbryd y Gwirionedd". Ni cheisiodd Iesu esbonio iddynt beth yw Eiriolwr na chwaith beth yw Ysbryd y Gwirionedd. Roedd yn rhaid i'r disgyblion aros a phrofi drostynt eu hunain. Digon iddynt oedd yr addewid, addewid Iesu iddynt, na fyddai fyth yn eu gadael yn ddiymadferth, nac yn ddigyfeiriad, na chwaith yn amddifad o bresenoldeb Duw.

Ac yna, ar ddechrau llyfr yr Actau, ar ddydd y Pentecost, gŵyl flaenffrwyth y Cynhaeaf Gwenith y ffydd Iddewig, cyflawnwyd addewid Iesu. Daeth yr Ysbryd Glân yn sydyn, fel gwynt grymus yn rhuthro ac yn llenwi'r tŷ lle oeddent yn eistedd ac ymddangosodd iddynt dafodau fel o dân yn ymrannu ac yn eistedd ar bob un ohonynt. Mae'n olygfa ddramatig, llawn cyffro ac egni. Mae'n olygfa sy'n dechrau gyda'r disgyblion yn eistedd gyda'i gilydd yn gofyn ymysg ei gilydd, "beth a wnawn nesaf?" ac mae'n gorffen gyda'r disgyblion allan yn strydoedd Jerwsalem, yng nghanol y torfeydd, yn cyhoeddi mawrion weithredoedd Duw. O fewn dim fe gawn weddnewidiad ym mywydau'r

disgyblion wrth iddynt gael eu hysgubo i fyny a'u chwythu allan i'r byd bygythiol o'u hamgylch i wynebu eu hofnau a'u dyfodol a bwrw ati â'r gwaith o adeiladu'r eglwys. Cofiwn, nid yn nerth eu hunain y gwnaeth y disgyblion y dasg amhosibl hon, ond yn nerth y grym dwyfol: grym yr Ysbryd Glân nad yw byth yn segur nac yn aros yn ei unfan - y nerth sy'n parhau i arwain yr eglwys i'r dyfodol wrth iddi gyhoeddi mai Iesu Grist yw'r Arglwydd a gwasanaethu'r byd mewn cariad.

Eto, yma yn llyfr y Actau, llyfr sy'n rhoi i ni hanes tyfiant a thwf yr eglwys fore, ni chawn esboniad na chwaith ddisgrifiad o'r Ysbryd Glân, ond fe welwn ni ôl ei ddylanwad a'i waith. Fe welwn ei waith dynamig a chreadigol yn gweithio trwy fywydau'r disgyblion ac yn nhwf a datblygiad yr eglwys.

Nid rhywbeth i ddal gafael ynddo yw'r Ysbryd Glân, nid rhywbeth i'w feddiannu a'i ddofi ydyw, na chwaith ei ddefnyddio er ein budd ein hunain. Yn hytrach, yr Ysbryd Glân sy'n dal gafael ynom ni, yn ein meddiannu ni ac ein grymuso ar gyfer gwaith y Deyrnas. Mae'r Ysbryd yn chwythu lle y myn ac yn ein tywys ni i'r cyfeiriad y mae am i ni fynd. Dyna'r antur fawr inni, ond dyna hefyd yr her. Yn fynych mae'r awydd ynom i aros yn ein hunfan, aros gyda'r cyfarwydd a'r cysurus, yn cadw at yr hyn sy'n dod a boddhad a budd i ni, sy'n cadw bywyd mor syml â phosibl. Mae'n hawdd syrthio i rigol, wedi'r cyfan yr ydym, fel rhan o'r hil ddynol, yn tueddu i gadw at yr un arfer, ac anodd yw newid arfer unwaith yr ydym wedi cynefino â hi. Ond, y mwyaf i gyd yr ydym yn cynefino ag un ffordd o wneud pethau, y mwyaf amharod 'dyn ni'n mynd tuag at unrhyw beth a all ymyrryd â hyn, gan gynnwys ymyrraeth dylanwad ac arweiniad yr Ysbryd Glân. Mae peryg arall hefyd, y mwyaf i gyd 'dyn ni'n cynefino ag un ffordd, y mwyaf bygythiol a gelyniaethus y mae'r byd o'n hamgylch yn edrych ac yn teimlo. Mae'r byd yn newid, fel mae'r byd wedi newid dros y canrifoedd. Daw datblygiadau newydd sy'n effeithio ar ein bywydau er gwell neu er gwaeth. Mae agweddau ar bob math o faterion cymdeithasol a moesol yn newid byth a beunydd ac mae'n anodd cadw lan ar holl newidiadau ar adegau. Mae hyd yn oed y sefydliadau mwyaf traddodiadol yn newid, gan gynnwys yr eglwys. Meddylwch am yr holl newidiadau sydd wedi dod i'n rhan dros y saith degawd diwethaf. Mae'n hawdd teimlo ein bod yn byw mewn byd sy'n dieithrio, mewn cymdeithas nad ydym yn teimlo ein bod yn perthyn iddi bellach, nid oherwydd ein bod ni wedi newid, ond oherwydd bod y byd a'i bethau o'n hamgylch wedi newid. Mae'n gallu bod yn deimlad annifyr iawn, teimlad sy'n gwneud i ni

deimlo'n ynysig ac yn ddiymadferth. Pan ddigwydd hyn fe ddaw i'n rhan yn fwyfwy y demtasiwn i encilio o'r byd ac aros yn ein hunfan a cheisio diogelu yr hyn sydd gennym. Fe allwn ni ei deimlo i'r byw, yn enwedig yn yr eglwys, mewn cymdeithas sy'n ymddangos mor secwlar a difater tuag at bethau Duw, y pethau 'dyn ni'n eu trysori, pethau sy'n rhan annatod o'n bywydau ni a bywydau ein cyndeidiau.

Ond, a dyma neges fawr y Sulgwyn, does gennym ni ddim i'w ofni. Y mae gennym yr Ysbryd Glân – y mae gennym y Diddanydd, un sy'n dod wrth ein hochr ni, i'n gwroli a'n grymuso yn ein pererindod ffydd, i'n symbylu ymlaen i'r dyfodol. Y mae gennym ni Ysbryd y gwirionedd er mwyn gwrthsefyll y gau, ac yn bennaf oll y mae gennym yr Efengyl, y newyddion da i rannu â'r byd. I'r disgyblion oedd gyda'i gilydd ar Ddydd y Pentecost, yr oedd y byd yn lle bygythiol iawn iddynt, byd oedd wedi gwrthod a chroeshoelio Iesu Grist. Ond wedi eu gwroli a'u grymuso gan yr Ysbryd Glân a'u chwythu allan i'r byd, yn sydyn doedd y byd ddim yn lle mor bygythiol ag yr oeddynt wedi ei ddychmygu. Wrth gwrs, yr oedd rhai yn barod i'w gwawdio, yn eu cyhuddo o fod yn feddw a hynny peth cyntaf yn y bore. Wrth gwrs yr oedd eraill yn wrthwynebus ac yn elyniaethus i'w tystiolaeth a'r newyddion da yr oedd ganddynt i'w rhannu. Ond, a dyma beth sydd yn rhaid i ni ei gofio, yr oedd y mwyafrif yn barod ac yn awyddus i wrando ar beth oedd ganddynt i'w ddweud am fawrion weithredoedd Duw a gyflawnwyd trwy Iesu Grist. Yn sydyn, nid oedd y byd yn lle mor fygythiol. Roedd yn lle a yn awyddus i wrando ar beth oedd ganddynt i'w ddweud a'i rannu. Daeth yr eglwys Gristionogol i fodolaeth, tyfodd yr eglwys Gristionogol pan gamodd y disgyblion allan i'r byd yn nerth yr Ysbryd Glân.

Petai'r disgyblion wedi aros yn eu hunfan, yn ddiogel yn yr ystafell hwnnw yn Jerwsalem, yn meddwl am y byd fel bygythiad iddynt, ni fyddai'r eglwys wedi dod i fodolaeth o gwbl, a byddai eu byd diogel cyfyng yn araf grebachu ac yn diflannu. Ond wrth ddilyn arweiniad yr Ysbryd Glân, aethant allan â'u ffydd yn eu calonnau a'u genau, ac yn ddiarwybod iddynt ar y pryd, cyflawnasant bethau mawrion yn enw'r Arglwydd.

Rhoi gobaith y mae'r Ysbryd Glân, gobaith am y dyfodol. Mae peryg weithiau ein bod yn cymysgu gobaith a hiraeth. Mae'r ddau yn emosiynau cryfion ynom, sy'n dyheu am rywbeth, rhywbeth arall, rhywbeth gwell. Y peryg yw ein bod yn treulio ein hamser yn hiraethu am yr hyn a fyn, yn hytrach na gobeithio am yr hyn a ddaw. Fe wyddom does dim

mynd yn ôl, dim ond ymlaen, a hynny o'r union le yr ydym ynndo nawr. Mae hynny yn gallu peri ofn ac ansicrwydd, ond nid ydym ar ein pennau ein hunain, y mae gennym Ysbryd bywyd, ysbryd y gwirionedd, ysbryd gobaith, y Diddanydd i'n gwroli, ein grymuso ac i'n tywys ni i'r dyfodol. Nid yw'r Ysbryd Glân byth yn segur, nac yn aros yn ei unfan. Ymddiried yn Nuw yw'r nod, ac ymddiried yn y ffaith bod yr Ysbryd Glân ar waith yn ein plith, fel y gallwn gamu allan â hyder, fel y disgyblion ar y Sulgwyn cyntaf hwnnw, â'n ffydd yn ein calonnau ac ar ein gennau. Amen.

Credo Nicea

**Credwn yn un Duw,
Y Tad, yr hollalluog,
gwneuthurwr nef a daear,
a phob peth gweledig ac anweledig.
Credwn yn un Arglwydd Iesu Grist,
unig Fab Duw,
a genhedlwyd gan y Tad cyn yr holl oesoedd,
Duw o Dduw, Llewyrch o Lewyrch,
gwir Dduw o wir Dduw,
wedi ei genhedlu, nid wedi ei wneuthur,
yn un hanfod â'r Tad,
a thrwyddo ef y gwnaed pob peth.
Er ein mwyn ni ac er ein hiachawdwriaeth
disgynnodd o'r nefoedd;
trwy nerth yr Ysbryd Glân daeth yn gnawd o Fair
Forwyn,
ac fe'i gwnaed yn ddyn,
Fe'i croeshoeliwyd drosom dan Pontius Pilat.
Dioddefodd angau ac fe'i claddwyd.
Atgyfododd y trydydd dydd yn ôl yr Ysgrythurau,
ac esgynnodd i'r nef,
ac y mae'n eistedd ar ddeheuaw'r Tad.
A daw drachefn mewn gogoniant
i farnu'r byw a'r meirw:
ac ar ei deyrnas ni bydd diwedd.
Credwn yn yr Ysbryd Glân,
yr Arglwydd, rhoddwr bywyd,
sy'n deillio o'r Tad a'r Mab,
ac ynghyd â'r Tad a'r Mab
a gydaddolir ac a gydogoneddir,
ac a lefarodd trwy'r proffwydi.
Credwn yn un Eglwys lân gatholig ac apostolig.
Cydnabyddwn un bedydd er maddeuant pechodau.
A disgwyliwn am atgyfodiad y meirw,
a bywyd y byd sydd i ddyfod.
Amen.**

Yr Ymbiliau

O Dduw, trwy'r Ysbryd Glân dyro i'r Eglwys nerth, doethineb a barn. Rhyddha yn dy bobl y gallu i fod yn dystion byw i'r holl fyd, a chyflawni dy orchymyn i garu'r rhai sy'n ceisio dy ddilyn di mewn gwirionedd.

Arglwydd yn dy drugaredd
Gwrando ein gweddi.

Ar Jwbili Platinum y Frenhines, cofiwn am ei
70mlynedd o wasanaeth cyhoeddus ffyddlon a di-lidio
i'r Deyrnas Unedig ac i'r Gymanwlad, rhoi iddi dy
fendith ac arweiniad a chyfarwydda â'th ddoethineb
pob un sy'n dwyn awdurdod dani i weithio dros
uniondeb, chyfiawnder a thegwch. Boed inni
anrhydeddu ein gilydd a cheisio lles pawb.
Arglwydd yn dy drugaredd
Gwrando ein Gweddi.

Erfyniwn dros fyd lle ceir siarad heb gyfathrebu a
pherthynas heb gariad, a lle mae ffiniau hil a chenedl
yn gwahanu pobl ac yn creu tensiynau a gwrthdaro.
Parhawn i weddio dros heddwch yn ein byd, a thros y
tangnefeddwyr, gweddiwn dros bawb sy'n dioddef o
ganlyniad i rhyfel, dros bobl Wcraïn, Ethiopia, De
Swdan, Syria a Yemen. Anfon dy Ysbryd Glân i
ddangos i dywys bawb i ddilyn ffordd heddwch, ac i'w
dysgu i gyd-fyw heb ofni cyd-ddyn.
Arglwydd yn dy drugaredd
Gwrando ein Gweddi.

Dyro inni farn gywir yn ein teuluoedd, yn ein
hymwneud â'n cyfeillion ac yn ein gwaith. Bydded
inni deimlo dy bresenoldeb di ym mhob sefyllfa. Dyro
inni ras i adlewyrchu dy gariad yn ein gofal am y rhai y
rhannwn ein bywydau â hwy.
Arglwydd yn dy drugaredd
Gwrando ein Gweddi.

Tor drwy dywyllwch bywydau anhapus â goleuni dy
iachâd a'th arweiniad. Gwna dy hun yn hysbys i'r rhai
nad ydynt erioed wedi dy adnabod di. Cynorthwya'r
ac adfer y rhai sydd wedi colli ffydd a oedd yn eiddo
iddynt gynt.
Arglwydd yn dy drugaredd
Gwrando ein Gweddi.

Gweddiwn dros y rhai sydd yn llawenhau yn awr yn y
wybodaeth berffaith a'r weledigaeth ddigwmwl a
ddaw o fod yn nes atat ti. Bydded i ni sydd yn dy
adnabod ac yn dy addoli di'n amherffaith yma ar y
llawr ddod yn y diwedd i'r un goleuni tragwyddol.
Arglwydd yn dy drugaredd
Gwrando ein Gweddi.

Bydded i'n gweddiâu fod yn deilwng i sefyll yng
ngoleuni pur yr Ysbryd Glân.

Dad trugarog
Derbyn y gweddiâu
Er mwyn dy Fab,
Ein gwaredwr Iesu Grist. **Amen.**

**Bywha dy waith, O Arglwydd mawr,
Dros holl derfynau daear lawr,
Trwy roi tywalltiad nerthol iawn
O'r Ysbryd Glân a'i ddwyfol ddawn.**

**Bywha dy waith o fewn ein tir,
Arddeliad mawr fo ar y gwir;
Mewn nerth y bo'r Efengyl iawn,
Er iachawdwriaeth llawer iawn.**

**Bywha dy waith o fewn dy dŷ,
A gwna dy weision oll y hy;
Gwisg hwynt â nerth dy Ysbryd Glân,
A'th air o'u mewn fo megis tân.**

**Bywha dy waith, O Arglwydd mawr,
Yn ein calonnau ninnau'n awr;
Er difa pob rhyw bechod cas,
A chynnydd i bob nefol ras.**
*John Roberts (Mininus)
Emynau'r Llan 119*

Cymun Ysbrydol

Y mae'r Arglwydd yma.
Y mae ei Ysbryd gyda ni.

Dyrchefwch eich calonnau.
Yr ydym yn eu dyrchafu at yr Arglwydd.

Diolchwn i'r Arglwydd ein Duw.
Iawn yw rhoi ein diolch a'n clod.

Iawn yn wir, ein dyletswydd a'n llawenydd
bob amser ac ym mhob lle
yw diolch i ti, Dad Sanctaidd,
hollalluog a bythfywiol Dduw,
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

A esgynnodd i'w orsedd nefol ar dy ddeheulaw
a thrwyddo yr wyt yn tywallt
ar dy bobl yr Ysbryd Glân:
Ysbryd doethineb a deall,
Ysbryd cyngor a grym,
Ysbryd gwybodaeth ac ofn yr Arglwydd.
Dathlwn genhadaeth dy Eglwys
pan unodd yr Ysbryd Glân amryw ieithoedd
yn un llais i gyhoeddi un ffydd.

Felly, gyda llu'r angylion
a holl gwmpeini'r nef,
cyhoeddwn ogoniant dy enw

ac ymuno â hwy yn eu hemyn diderfyn o fawl:

**Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd Arglwydd,
Duw gallu a nerth,
Nef a daear sy'n llawn o'th ogoniant.
Hosanna yn y goruchaf.**

**Bendigedig yw'r hwn sy'n dyfod yn enw'r Arglwydd.
Hosanna yn y goruchaf.**

Yr hanes Sefydlu Swper yr Arglwydd:
I Corinthiaid 11: 23-26

Oherwydd fe dderbyniais i oddi wrth yr Arglwydd yr hyn hefyd a draddodais i chwi: i'r Arglwydd Iesu, y nos y bradychwyd ef, gymryd bara; ac wedi iddo ddiolch, fe'i torrodd, a dweud, "Hwn yw fy nghorff, sydd er eich mwyn chwi. Gwnewch hyn er cof amdanaf." Yr un modd hefyd fe gymerodd y cwpan, ar ôl swper, gan ddweud, "Y cwpan hwn yw'r cyfamod newydd yn fy ngwaed i. Gwnewch hyn, bob tro yr yfwch ef, er cof amdanaf." Oherwydd bob tro y byddwch yn bwyta'r bara hwn ac yn yfed y cwpan hwn, yr ydych yn cyhoeddi marwolaeth yr Arglwydd, hyd nes y daw.

Fel y dysgodd ein Hiachawdwr ni, gweddiwn yn hyderus:

**Ein Tad,
yr hwn wyt yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw,
deled dy deyrnas,
gwneled dy ewyllys;
megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.
Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol
a maddau i ni ein dyledion,
fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.
Ac nac arwain ni i brofedigaeth;
eithr gwared ni rhag drwg.**

**Canys eiddot ti yw'r deyrnas,
a'r gallu, a'r gogoniant,
yn oes oesoedd. Amen.**

Cymerwn ennyd i fyfyrion ar y Cymun Bendigaid, ac ar orchymyn Iesu, "Gwnewch hyn er cof amdanaf".

**O Wynfydedig Arglwydd,
mewn undod â'th bobl ffyddlon ledled y byd,
gerbron pob allor yn dy Eglwys lle dethlir yr
Ewcharist,**

**dymunwn offrymu iti fawl a diolch.
Cyflwynaf i ti fy enaid a'm corff
gan daer ewyllysio bod yn un â thi'n wastadol.
Am na allaf yn awr dy dderbyn yn y Sacrament,
tyrd yn ysbrydol i'm calon.
Gwnaf fy hun yn un â thi,
cofleidiaf di â chalon, meddwl ac enaid.
Na foed fyth i ddim dy wahanu di oddi wrthyf;
fel y gallaf fyw a marw yn dy gariad. Amen.**

Angus Die
**Oen Duw,
sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd:
trugarha wrthym.**

**Oen Duw,
sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd:
trugarha wrthym.**

**Oen Duw,
sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd:
dyro inni dangnefedd.**

Diolchwch i'r Arglwydd, oherwydd graslon yw:
ei gariad sy'n dragywydd.

**O Dduw ffyddlon,
a gyflawnaist addewidion y Pasg
drwy anfon dy Ysbryd Glân
ac agor ffordd y bywyd tragwyddol
i bob hil a chenedl,
agor ein gwefusau trwy dy Ysbryd,
fel y gall pob tafod ddatgan dy ogoniant;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.**

**Ysbryd Duw a fu'n ymsymud
Dros ddyfnderau'r tryblith mawr,
Nes dwyn bywyd a phrydferthwch
Allan i oleuni'r wawr;
Dros y byd a'i dryblith heddiw
Chwyth drachefn, O anadl Iôr,
Nes bod heddwch fel yr afon
A chyfiawnder fel y môr.**

**Ysbryd Duw, yng nghwlwm cymod,
Ac yn rhwymau cariad rhad,
Cydia galon mwy wrth galon,
Cydia wlad ynghlwm wrth wlad;
Dyro inni edifeirwch
Am bob cas a malais trist,
Cod ein golwg oddi wrth hunan
At orwelion teyrnas Crist.**

Ysbryd Duw, er mwyn y beddau

Ar bellennig fryn a phant,
Ac er mwyn calonnau ysig
Ac er mwyn ein hannwyl blant,
Ac er mwyn yr hwn weddiodd
Dros elynion yn ei glyw' –
Tro'n hwynebaw i Galfaria
Fel na ddysgom ryfel mwy.

A.E. Jones (Cynan)
Emynau'r Llan 121

GWEDDIAU'R SUL

Yn ein gweddiâu heddiw, gofynnir inni weddio
dros:

- Eglwys Anglicanaidd De Affrica
- Ardal Gweinidogaeth Caerffili a Chwm
Aber, arweinydd ordeiniedig i'w benodi,
Deryn McAndrew, y Cadeirydd Lleyg

GWYLIAU A DARLLENIAU

Dydd Llun 6 Mehefin:

I Brenhinoedd 17:1-6; Salm 121; Mathew 5:1-12
Gweddiwn dros: Eglwys Anglicanaidd Tanzania
Deoniaeth Penarth a'r Barri, y Parchedig Andrew
James, y Deon Bro

Dydd Mawrth 7 Mehefin:

I Brenhinoedd 17:7-16; Salm 4; Mathew 5:13-16
Gweddiwn dros: Ardal Cenhadol Macau – Hong Kong
Sheng Hung Hui
Ardal Gweinidogaeth y Barri, y Parchedig Zoë King,
Cadeirydd Lleyg i'w benodi

Dydd Mercher 8 Mehefin:

I Brenhinoedd 18:20-39; Salm 16; Mathew 5:17-19
Gweddiwn dros: Esgobaeth Machakos – Eglwys
Anglicanaidd Cenia
Yr Archddiaoniaid, yr Hybarch Rod Green
(Archddiacon Llandaff), yr Hybarch Michael Komor
(Archddiacon Margam)

Dydd Iau 9 Mehefin: Columba (597), Abad

I Brenhinoedd 18:41-46; Salm 65; Mathew 5:20-26
Gweddiwn dros: Esgobaeth Madhya Kerala – Eglwys
Unedig De India
Ardal Gweinidogaeth Penarth, y Parchedig Mark Jones
(Arweinydd), Mel Griffin (Cadeirydd Lleyg)

Dydd Gwener 10 Mehefin: Effrem y Syriad (373),

Diacon, Emynydd ac Athro

I Brenhinoedd 19:9-16; Salm 27:7-14; Mathew 5:27-32
Gweddiwn dros: Esgobaeth Gorllewin Madi, Talaith
Wganda
Lleyg)

Dydd Sadwrn 11 Mehefin: Barnabas, Apostol

Job 29:11-16; Salm 112; Actau 11:19-30; Ioan 15:12-17
Gweddiwn dros: Esgobaeth Madras – Eglwys Unedig
De India
Deoniaeth Pontypridd, Deon Bro i'w benodi